# Cofnodion cyfarfod â thema Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2024

**Aelodau o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) a oedd yn bresennol:**

- Dr Rhian Hayward, MBE, Cadeirydd
- Dr Philip Hollington
- Dr John Williams
- Dave Holland
- Georgia Taylor

**Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:**

- Anjali Juneja – Cyfarwyddwr Materion Rhyngwladol a'r Deyrnas Unedig
- Nathan Barnhouse – Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru
- Sioned Fidler – Pennaeth Cyfathrebu, y Gymraeg a Chymorth Busnes
- Lucy Edwards – Uwch-reolwr Busnes
- Owen Lewis – Pennaeth Polisi Rheoleiddio a'r Bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol
- Jonathan Davies – Pennaeth Polisi Safonau a Diogelu Defnyddwyr

**Cyflwynwyr:**

- Jodie Wild – Pennaeth yr Uned Digwyddiadau, ASB
- Nathan Harvey – Pennaeth Rheoli Digwyddiadau, yr ASB yng Nghymru
- Giles Chapman – Pennaeth Dadansoddi a Dyfodol, ASB
- Greg Wasinski – Arweinydd Tîm, Mewnwelediadau Strategol, ASB

**Arsylwyr:**

Cynrychiolwyr o'r canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Sir Ynys Môn

- Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

# 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a chofnodion y cyfarfod diwethaf

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nodwyd ymddiheuriadau gan Helen Taylor a Jessica Williams. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod mis Ebrill 2024.

# 2. Datgan buddiannau

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

# 3. Digwyddiadau a Gwydnwch

3.1 **Jodie Wild, Pennaeth yr Uned Digwyddiadau** – rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o waith Digwyddiadau, Gwydnwch ac Atal. Esboniodd Jodie sut mae'r ASB yn gweithio gydag awdurdodau lleol, rhanddeiliaid eraill a'r diwydiant i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac i dynnu bwyd anniogel oddi ar y farchnad. Mae'r tîm hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr Gweithrediadau Maes ar ddigwyddiadau mewn sefydliadau a gymeradwywyd gan yr ASB ac yn cydlynu â chydweithwyr yr ASB i ddarparu cyngor ar reoli risg. Yna, soniodd Jodie am rôl yr ASB wrth reoli brigiadau o achosion ac esboniodd sut y caiff digwyddiadau eu dosbarthu, yn ogystal â manylu ar y gweithdrefnau ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau. Esboniodd Jodie waith y Tîm Signalau, sy'n darparu mwy o allu a chapasiti i ganfod digwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, ymateb iddynt a'u hatal rhag digwydd yn y DU. Esboniodd Jodie fod algorithm wedi'i ddatblygu i echdynnu a storio gwybodaeth allweddol o rybuddion ac erthyglau ynghylch diogelwch bwyd, a hynny er mwyn nodi tueddiadau posib ym maes digwyddiadau neu risgiau sy'n dod i'r amlwg trwy ddadansoddi data yn ehangach. Rhoddodd Jodie hefyd rai enghreifftiau o ddigwyddiadau anarferol diweddar y mae'r tîm wedi gweithio arnynt – gordyfiant o algae yn Lough Neagh, plwm mewn llaeth y fron dynol a deunydd risg penodedig (SRM) mewn allforion tafod buchol.

3.2 **Nathan Harvey, Pennaeth Rheoli Digwyddiadau yng Nghymru** – roedd y cyflwyniad yn manylu ar y dull pedair gwlad o ymdrin â digwyddiadau, gan dynnu sylw at y ffaith bod tîm digwyddiadau ar wahân ym mhob gwlad, ond bod y timau hyn yn cydweithio'n agos iawn. Gwnaeth y cyflwyniad amlinellu rolau'r tîm yng Nghymru, a rhoi'r diffiniad o ddigwyddiad fel yr amlinellir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd a Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru). Esboniodd Nathan y llif gwaith o ran sut y rhoddir gwybod am ddigwyddiadau a sut y cânt eu rheoli o'r hysbysiad cychwynnol i gyngor rheoli risg, camau gweithredu'r gweithredwr busnes bwyd a'r ASB hyd at gau'r digwyddiad. Yna manylodd ar y mathau o ddigwyddiadau: Halogiad ffisegol; Halogiad microbiolegol; Halogiad cemegol; Halogiad alergenaidd; Halogiad amgylcheddol; a Gweddillion meddyginiaethau ar y fferm a milfeddygol. Esboniodd Nathan fod llawer o waith yn cael ei wneud ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â digwyddiadau halogi amgylcheddol, ond bod yr ASB yn cymryd yr awenau ac yn cydlynu ag awdurdodau lleol ar gyfer ymchwiliadau i'r gadwyn fwyd. Pan fydd brigiadau o achosion o glefydau a gludir gan fwyd, mae'r tîm yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac UKHSA. Esboniodd Nathan rolau tîm yr ASB ymhellach, sef:

- Ymchwilio i ddigwyddiadau / brigiadau o achosion sy'n ymwneud â diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid
- Cydlynu timau'r ASB ar gyfer mewnbwn gwyddonol, rheoli risg a/neu asesu risg
- Cyhoeddi rhybuddion bwyd
- Hwyluso'r gwaith o alw a thynnu cynhyrchion yn ôl
- Cyfathrebu (rhyngwladol, y diwydiant, awdurdodau lleol)
- Cychwyn gwaith dadansoddi gwraidd y broblem (RCA)

Rhoddodd Nathan wybod am yr adroddiad blynyddol ar ddigwyddiadau a gwydnwch a gyflwynwyd i'r Bwrdd yng nghyfarfod mis Mehefin, a thynnodd sylw at rywfaint o'r data penodol i Gymru gan gynnwys tueddiadau digwyddiadau, RCA, ymgysylltiad â'r diwydiant, parodrwydd a gwydnwch, a dwy astudiaeth achos.

3.3 Cafwyd cwestiynau a thrafodaethau gan y pwyllgor ar ddilyniannu genom cyfan, a disgrifiodd Nathan sut mae hyn wedi newid y ffordd y mae’r ASB yn gweithio ar ddigwyddiadau, gyda mwy o ddata a gwybodaeth mewn perthynas ag achosion, sy’n rhoi’r gallu i gysylltu a chlystyru achosion. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch effaith a pherfformiad y drefn ar gyfer galw cynhyrchion yn ôl a sut mae hyn yn cael ei fonitro. Roedd gan aelodau’r pwyllgor ddiddordeb hefyd yn y gwaith dadansoddi gwraidd y broblem, a dywedasant eu bod yn edrych ymlaen at gael diweddariad pellach yn y dyfodol ar sut mae’r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

3.4 **Giles Chapman, Pennaeth Dadansoddi a’r Dyfodol, Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU)** – rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o waith yr NFCU a darparodd genhadaeth yr Uned, sef ‘Ein cenhadaeth yw nodi, ymchwilio i, atal a tharfu ar dwyll bwyd difrifol’. Esboniodd Giles fod y tîm yn diogelu defnyddwyr a busnesau cyfreithlon trwy gynnal ymchwiliadau twyll bwyd a arweinir gan gudd-wybodaeth. Gwneir hyn trwy asesu’r bygythiad, trosglwyddo gwybodaeth amdano, a thrwy weithgarwch atal troseddau bwyd gyda rheoleiddwyr, y llywodraeth a’r diwydiant. Tynnodd Giles sylw at gost troseddau twyll bwyd, cynhyrchion anniogel, camarwain defnyddwyr a niwed i enw da a all ddeillio o dwyll bwyd wrth danseilio hyder defnyddwyr, er enghraifft y digwyddiad cig ceffyl. Yna, rhoddodd drosolwg o’r timau yn yr NFCU sydd wedi’u rhannu’n ddwy gangen: Cudd-wybodaeth, Strategaeth ac Atal ac Ymchwiliadau. Yr amcanion allweddol ar gyfer yr NFCU yw’r Asesiad Strategol Troseddau Bwyd ar gyfer 2024, ynghyd â blaenoriaethau’r Strategaeth Rheoli, mentrau Atal – i gynnwys offeryn ar-lein, gweithdai golwg manwl, cylchlythyr, ffocws ar fusnesau bach a chanolig a chynllun atal ar draws yr ASB ac Ymchwiliadau – ymholiadau twyll cymhleth, ymchwiliadau ariannol ac adfer asedau. Yng Nghymru, mae swyddog cudd-wybodaeth rhanbarthol pwrpasol a thîm ymochrol o ymchwilwyr. Mae dau ymchwiliad cyfredol, a’r ddau ohonynt yn archwilio’r cadwyni cyflenwi sy’n gysylltiedig â chynhyrchu ‘smokies’. Yna, aeth y cyflwyniad yn ei flaen i fanylu ar rai o lwyddiannau diweddar yr NFCU sydd wedi arwain at euogfarnau a dirwyon. O ran darnau allweddol o waith sydd ar ddod, bydd yr Asesiad Strategol ar Droseddau Bwyd yn cael ei gyhoeddi, a bydd gwaith yn cael ei gynnal mewn perthynas â phwerau’r NFCU – mae ymdrechion ar waith i geisio deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd, datblygu a gwella ffocws gwaith atal mewn perthynas â busnesau bach a chanolig.

3.4 Cymeradwyodd y pwyllgor waith yr Uned, a dywedodd aelodau'r pwyllgor eu bod yn edrych ymlaen at weld yr Asesiad Strategol ar Droseddau Bwyd.

3.5 **Greg Wasinski, Arweinydd Tîm, Mewnwelediadau Strategol** – Mae'r tîm yn rhan o'r Uned Ddadansoddi yn y gyfarwyddiaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth a'u prif ffocws yw sganio'r gorwel, sut olwg allai fod ar y system fwyd yn y dyfodol, a beth allai rhai o'r heriau neu'r cyfleoedd fod o ganlyniad. Mae sawl tîm ar draws yr ASB sy'n ymgymryd â gweithgareddau sganio'r gorwel, a gall y tîm ddefnyddio'r arbenigedd hwn i lywio eu gwaith. Esboniodd Greg fod rhythm bellach o adroddiadau rheolaidd mewn perthynas â gwaith sganio'r gorwel. Bob 6 mis, cynhyrchir adroddiad 'cipolwg agos' mewnol, a, phob dwy flynedd, cynhyrchir Asesiad Strategol gyda golwg mwy hirdymor. Cynhyrchwyd yr un diwethaf yn 2023, ac mae'r tîm yn bwriadu llunio'r adroddiad nesaf yn 2025. Gwnaeth yr Asesiad Strategol cyntaf yn 2021 dynnu sylw at rai meysydd yr oedd angen eu harchwilio ymhellach, ac roedd enghreifftiau o waith a gomisiynwyd o hyn yn amrywio o edrych ar dechnolegau sy'n dod i'r amlwg yn y system fwyd, proteinau amgen, argraffu 3D, effaith prinder llafur ac effaith materion y byd.

3.6 Cafwyd trafodaethau ynghylch golygu genynnau a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg a'r camau a gymerir i oruchwylio'r gwaith hwn, a hefyd sut mae'r tîm yn cysylltu â'r timau sydd â meysydd gwaith sy'n datblygu, er enghraifft, cynhyrchion rheoleiddiedig a diwygio'r system honno.

## 4. Diweddariad gan y Cadeirydd

4.1 Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar ar gyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin yn Llandudno a'i hymweliad â llaethdy. Roedd yn ddiddorol gweld y broses reoleiddio ar y fferm sydd â chyfleusterau pasteureiddio ar y safle ac sydd wedi amrywiaethu i werthu eu cynhyrchion – llaeth a hufen iâ.

## 5. Adroddiad y Cyfarwyddwr (Papur 24/07/02)

5.1 Rhoddodd Cyfarwyddwr UKIA ddiweddariad llafar ar yr adroddiad a oedd yn cynnwys diweddariadau ar y llywodraeth newydd yn San Steffan ac ymgysylltiad cadarnhaol â'r Gweinidog Bryant yng Nghymru.

## 6. Unrhyw fater arall

6.1 Nododd yr aelodau y byddai'r cyfarfod â thema nesaf yn cael ei gynnal ar 22 Hydref.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.